Cyfres Titus 2

Astudiaeth 1

Merched sy'n dymuno plesio ein Tad

Stori i ddechrau: Pam siartiau seren?

Pan oedd y plant yn ifanc roedd gynnon ni siart seren a siart tasgau ar wal y gegin. Byddai'r plant yn gallu ennill seren drwy gwblhau eu tasgau. Doedden ni ddim yn gofyn iddyn nhw wneud hynny'n llawen – ac roedd hynny'n anoddach i rai nag eraill. Felly, byddai un yn gyfrifol am osod y bwrdd, un yn gyfrifol am glirio, un yn rhoi'r teganau i gadw, un yn bwydo'r ci – ac roedd y tasgau hyn yn cael eu cyfnewid rhwng y plant, ac yn cael eu hailadrodd.

Yn aml, roedd yn fwy o drafferth nag o werth a bod yn onest – ond fe wnaethon ni ddal ati am nifer o resymau. Roedden ni am i'r plant ein helpu ni, fel nad oedd yn rhaid i mi wneud popeth fy hun, ond hefyd er mwyn eu dysgu bod gan bob aelod o'r teulu gyfrifoldebau i'w cwblhau. Ond roeddwn i hefyd am iddyn nhw ddymuno fy helpu am eu bod yn fy ngharu ac am fy mhlesio, ac am eu bod hefyd yn gweld cymaint roeddwn i'n ei wneud o fy ngwirfodd iddyn nhw, a'u bod yn dymuno talu 'nôl am hynny. Wrth gwrs, roedden ni hefyd am iddyn nhw arfer hunanddisgyblaeth ac i beidio â bod yn hunanol.

Roedden nhw'n dysgu sut i fyw mewn modd oedd yn ein plesio ni fel rhieni, ac mewn modd a fyddai'n dod â'r gorau allan ynddyn nhw i'w paratoi ar gyfer eu bywyd yn oedolion annibynnol.

Amser i rannu

Allwch chi feddwl am stori debyg i'w rhannu gyda'r grŵp? Pa dasgau mae/oedd eich plant yn helpu gyda nhw, os o gwbl? Pam ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig i blant helpu yn y cartref – hynny yw, os ydych chi!

Cyflwyniad i'r gyfres

Mae cyfeiriad at adnodau perthnasol yn cael eu rhoi mewn cromfachau, ond peidiwch â cheisio darllen pob un. Mae'r adnodau'n cael eu nodi ar y taflenni gwaith er mwyn i bobl eu darllen yn eu hamser eu hunain hefyd.

Awydd newydd i blesio Duw

Pan ydyn ni'n dod yn Gristnogion mae gynnon ni ddyhead newydd i fyw er mwyn plesio Duw. Mae'r dyhead hwn yn bod pan fo Ysbryd Glân Duw yn byw ynon ni. (Rhufeiniaid 8:10, 12 -15).

Ffordd newydd o fyw i blesio Duw

Mae'r Testament Newydd yn nodi llawer o bethau y dylen ni eu gwneud, a phethau na ddylen ni eu gwneud wrth i ni geisio byw er mwyn plesio Duw. Efallai ei bod hi'n ymddangos fel pe bai y rhestrau yn rhy hir a'i bod hi'n amhosibl gwneud popeth yn iawn! (Galatiaid 5:16-21; Colosiaid 3:5-10)

Mae 2 beth i'w cadw mewn cof!

- Yn union fel y mae'n nod gynnon ni fel rhieni i weld ein plant yn tyfu i fod yn oedolion hapus, llwyddiannus sy'n gallu ymdopi â bywyd, y mae hefyd yn nod gan Dduw i'n gweld ni'n tyfu i fod yn union fel ei Fab, ein 'brawd mawr'. Mae Duw yn dymuno i ni fod fel IESU – yr unig berson perffaith i fyw ar y ddaear, un sy'n llawn cariad, trugaredd, llawenydd, tosturi, nerth a doethineb. Dyma'r Mab a wnaeth gyflawni ewyllys ei Dad yn llawn, a'i blesio Ef yn berffaith. Darllenwch 1 Ioan 3:2

- Yr Ysbryd Glân, sy'n byw o fewn pob crediniwr, ydy'r grym sy'n ein galluogi i ufuddhau a byw bywydau sy'n plesio Duw. Darllenwch 2 Timotheus 1:7

Yn y gyfres hon o astudiaethau sydd wedi eu seilio ar bennod 2 o lythyr Paul at Titus, byddwn ni'n canfod rhai o'r nodweddion y mae Duw am i ferched Cristnogol eu coleddu a'u datblygu, os ydyn nhw am fyw bywydau i'w blesio.

Wrth i ni dreulio amser yn ystyried beth mae dysgeidiaeth Paul yn ei olygu i ni heddiw, byddwn ni hefyd yn gweld bod Duw, yn ogystal ag anfon yr Ysbryd Glân i'n nerthu ni, wedi bwriadu i'n chwiorydd yng Nghrist fod yn rhan o'n trawsffurfiad i fod yn debycach i Iesu.

Gwybodaeth am lyfr Titus

Fe wyddon ni fod Paul a Titus wedi treulio amser gyda'i gilydd yn cyhoeddi'r Efengyl ar ynys Creta. Nawr, mae Paul wedi gorfod symud ymlaen ac wedi gadael Titus i barhau'r gwaith o bregethu, dysgu a bugeilio'r credinwyr yno. Mae'n rhaid i Titus hefyd roi trefn ar yr eglwysi drwy benodi henaduriaid.

Unwaith roedd Paul wedi gadael Creta mae'n ymddangos bod Satan ar waith yn ceisio dymchwel trefn yr eglwys ac yn llygru ei dysgeidiaeth drwy 'bobl wrthryfelgar'.

Mae athrawon celwyddog wedi ymddangos (ad10), rhai ohonyn nhw'n frodorion Creta, eraill yn Iddewon, sy'n ceisio elw iddyn nhw eu hunain (ad11). Mae'n rhaid i Titus a'r henaduriaid eu tawelu (ad11, ad13) drwy ddysgu i'r credinwyr yr hyn sy'n gydnaws â dysgeidiaeth gywir. (2:1)

Felly mae Paul yn ysgrifennu'r llythyr hwn at Titus er mwyn ei gefnogi a'i helpu, a thrwy wneud hynny'n cadarnhau bod yr awdurdod gan Titus i ordeinio henaduriaid a datgan beth sy'n ddysgeidiaeth gadarn y mae'n rhaid i'r eglwys lynu wrthi a'i dysgu.

Addysgu merched Duw sut i fyw mewn ffordd sy'n plesio Duw

Darllenwch: Pennod 2:1-10

Yma fe gawn ni gyfarwyddiadau ar gyfer pedwar grŵp gwahanol yn yr eglwys: dynion hŷn, y merched, y dynion ifanc a chaethweision.

Cofiwch i'r cyfarwyddiadau hyn gael eu rhoi i eglwysi oedd newydd eu ffurfio. Y ddysgeidiaeth sydd yma ydy sicrhau bod gan yr aelodau arweiniad clir ar sut i fyw bob dydd mewn modd sy'n plesio Duw.

Mae'r adnodau y byddwn ni'n eu hystyried, adnodau 3,4,5 yn cyfeirio at ferched hŷn a merched iau.

Wrth gwrs, mae ein cymdeithas ni yn wahanol iawn i'r gymdeithas yn oes yr apostol Paul, a gall dweud pwy sy'n 'ifanc' ac yn 'hŷn' fod yn gêm beryglus!

Ond does dim rhaid i ni feddwl am y gwahaniaethau hyn - hŷn ac iau - fel rhai sydd yn cyfeirio yn unig at oed corfforol merch. Bydd y mwyafrif ohonon ni'n gallu meddwl am ferched rydyn ni'n eu 'nabod sy'n 'hŷn' yn y ffydd, a'r rheini sy'n 'iau', a bydd yn gymorth i ni gofio hyn. Mae hefyd yn ddefnyddiol meddwl am fywyd person fel un sy'n cynnwys nifer o 'dymhorau', ac rydyn ni fel merched yn pasio drwy wahanol dymhorau: er enghraifft, tymor magu plant bach, tymor dod yn annibynnol pan fyddwn ni'n cychwyn gweithio, neu'r tymor o fod yn weddw. Gallwn feddwl am ferched sydd yn yr un tymor â ni'n hunain, ac am y rheini sydd mewn tymhorau gwahanol, tymhorau rydyn ni wedi bod trwyddyn nhw'n barod.

Pwyntiau Penodol

Beth mae Paul yn ei ddweud y dylai merched hŷn ei wneud?

Adnodau 3 a 4. Nodwch beth sy'n dod i'ch meddwl wrth i chi ddarllen y rhestr yma.

Byddwch yn dduwiol

Peidiwch â hel clecs maleisus

Peidiwch ag yfed gormod

Dysgwch i eraill beth sy'n dda

Hyfforddwch y gwragedd ifanc

Beth mae merched iau i'w ddysgu?

Caru eu gŵyr a charu eu plant

Bod yn gyfrifol a chadw'u hunain yn bur

Gofalu am eu cartrefi

Bod yn garedig

Bod yn atebol i'w gwŷr

Nodyn: mae'r ail astudiaeth yn ymdrin â'r adnodau hyn a'u cymhwysiad mewn manylder a bydd amser i'w trafod hefyd.

<u>Amser i Ystyried</u>

Caniatewch amser i'r grŵp ystyried y canlynol fel unigolion:

- Ydw i'n ferch hŷn? Ydw i'n mynd ati i helpu'r merched hynny sy'n iau na mi yn y ffydd drwy ddysgu, hyfforddi a gosod esiampl? Sut ydw i'n gwneud hynny?
- Ydw i'n ferch iau? Ydw i'n cydnabod bod arna i angen arna cael fy nysgu gan eraill? Ydw i'n barod i gael fy nysgu? Esiampl pwy ydw i'n ei ddilyn?

Trafodwch gyda'ch gilydd:

Sut mae'r cyngor yma yn gwahaniaethu oddi wrth y cyngor a glywn gan y byd?

Gofynnwch am adborth os ydy hynny'n briodol

<u>Nodyn i ferched sengl</u>

Efallai y bydd merched sengl yn teimlo bod yr astudiaethau hyn yn amherthnasol ond efallai yr hoffen nhw ystyried:

Yn gyntaf, mae'r gyfres hon yn cynnig cyfle i ystyried dysgeidiaeth Feiblaidd fel paratoad ar gyfer priodas.

Yn ail, yr hyn sydd i'w weld yn amlwg, ac sy'n cael ei gefnogi gan waith ymchwil, ydy bod Duw wedi creu merched â greddf arbennig i fagu yn rhan ohonyn nhw. Gall y rhinweddau gofalgar, sensitif hyn gael eu defnyddio i gefnogi a gwasanaethu eraill, p'un a ydyn ni'n briod, yn famau neu beidio[1].

Yn drydydd, mae gan fenywod hŷn sydd wedi colli eu priod lawer i'w ddysgu i eraill o'u profiadau eu hunain, a gall gwneud hynny fod yn gysur a llawenydd iddyn nhw ac eraill.

Ac yn olaf, dim ond astudiaeth 2 sy'n canolbwyntio ar bynciau nad ydyn nhw ddim ond yn berthnasol i ferched priod, ac mae'r egwyddorion Beiblaidd sy'n cael eu trafod yn ddefnyddiol i bawb ohonon ni.

<u>Dwy Egwyddor ar ein cyfer ni i gyd</u>

1. **Dylai merched Cristnogol ofalu am ei gilydd.**

Mae egwyddor yn yr adnodau hyn sy'n berthnasol i bob merch, yn sengl neu'n briod, yn hen neu'n ifanc, a'r egwyddor honno ydy y dylai merched Cristnogol ofalu am ei gilydd.

Mae hyn yn golygu bod merched hŷn ac aeddfetach yn addysgu, hyfforddi a gosod esiampl o sut i fyw'n sanctaidd i ferched eraill yn yr eglwys.

Mae hefyd yn awgrymu bod ar ferched iau ANGEN cael eu haddysgu, ac y dylen nhw fod yn FODLON cael eu haddysgu.

2. Rydyn ni wedi ein harfogi i fyw yn aelodau o Gorff Crist

Mae Duw wedi rhoi i bob un ohonon ni ddoniau a thalentau y dylen ni eu defnyddio

- 1 Corinthiaid 12:5 - *er lles yr eglwys gyfan, ein brodyr a'n chwiorydd, sy'n ffurfio 'Corff Crist' gyda ni*
- 1 Timotheus 4:16 - *i rannu'r Efengyl*
- Effesiaid 2:10 - i g*yflawni ei fwriad Ef ar gyfer ein bywyd ni*
- Ioan 15:8 - *i ogoneddu Duw*,

Yn ystod y gyfres hon byddwn ni'n cael cyfle i ystyried sut ydyn ni'n defnyddio'r doniau y mae Duw wedi eu rhoi i ni ar gyfer gofalu am ein chwiorydd yng Nghrist.

Rhwng nawr a'r astudiaeth nesaf

1. Treuliwch amser yn myfyrio a gweddïo am y cwestiynau canlynol. Gofynnwch i'ch partner/iaid gweddi weddïo drosoch.

- Sut ydw i'n defnyddio'r talentau a roddodd Duw i mi er lles eraill?
- Er lles fy nheulu - fy ngŵr/plant/teulu estynedig?
- Er lles fy nheulu yn yr eglwys – yn enwedig merched eraill yn yr eglwys?
- Er lles merched anghenus sydd y tu allan i'r eglwys ar hyn o bryd?

Wrth i chi ddarllen eich Beibl yr wythnos hon ceisiwch sylwi ar beth mae Duw yn ei ddweud wrthych chi sy'n berthnasol i'r cwestiynau hyn.

2. Darllenwch dros y nodiadau a'r adnodau eto yn ofalus. Darllenwch un o'r erthyglau am y nodweddion hŷn/iau ar dudalen Titus 2 ar wefan www.rhaglendorcas.com

3. Dysgwch adnodau 1 Thesaloniaid 5:11 ac 1 Corinthiaid 12:7

4. Dechreuwch ddarllen llyfr newydd – beth am **HAVING A MARY HEART IN A MARTHA WORLD: Joanna Weaver: *Waterbrook Multnomah? (adolygiad ar safle rhaglendorcas.com)***